Nodiadau i Athrawon

Gwefan Llinell Amser

Gellir defnyddio'r adnodd hwn yn annibynnol, mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'n cynnig trosolwg o hanes y Gymraeg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn ogystal â chyflwyno pynciau trafod am sefyllfa bresennol y Gymraeg. Mae'r adran drafod i gynorthwyo disgyblion i ffurfio eu barn eu hunain ac i ddatblygu hyder wrth drafod y pwnc.

Dyma ambell awgrym am ffyrdd i ddefnyddio'r adnodd.

- Gosodwch ddarllen am un digwyddiad yn unig fel gwaith cartref, a threulio'r wers ganlynol yn trafod y pwnc. Er enghraifft, gellid defnyddio'r rhan o'r adnodd am Gymdeithas yr Iaith Gymraeg fel sail ar gyfer trafodaeth. Dylid annog y disgyblion i ystyried y canlynol:-

- Pa effaith mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi ei gael ar yr iaith?
- Ydych chi'n meddwl fod y Gymraeg mewn sefyllfa well neu waeth o ganlyniad i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg?

- Ydych chi'n gwybod am ymgyrchoedd lleol gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg?

- Gosodwch dasg dosbarth i drafod un o'r pynciau yn Rhan 2 (Y Presennol.) Er enghraifft, gellid defnyddio'r rhan am y Gymraeg ar y we. Gallwch annog y disgyblion i drafod:-
  - Ydy'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg ar wefannau cymdeithasol, a pham?
  - Ydy'r disgyblion yn gwybod am enwogion sy'n trydar yn Gymraeg? Pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud i statws y Gymraeg?
  - Ydy'r disgyblion yn teimlo fod y Gymraeg yn llwyddo ar y we? Ydy'r we yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?

- Mae nifer o gwestiynau yn cael eu gosod yn Rhan 3 (Adran Drafod.) Gosodwch dasg dosbarth i drafod un o'r cwestiynau, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r llinell amser i gefnogi barn. Er enghraifft, gallwch ofyn "Beth yw'r ffordd orau o geisio cael pobl i

ddysgu Cymraeg?" Gallwch atgoffa'r disgyblion i drafod y canlynol:-

- Beth sydd wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol?
- A oes angen agwedd wahanol tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y byd modern?
- Sut mae'r sefyllfa yn lleol? Pa mor hawdd yw dysgu Cymraeg yn eich ardal chi?

- Gosodwch dasg i ymchwilio i ieithoedd lleiafrifol eraill, fel Basgeg a Chernyweg. Trafodwch:-
  - Sut mae sefyllfa ieithoedd lleiafrifol eraill yn cymharu gyda sefyllfa'r Gymraeg?
  - Beth allwn ddysgu o wledydd eraill am hyrwyddo'r iaith?
  - Beth fyddai'r disgyblion yn ei wneud yn lleol i hyrwyddo'r Gymraeg?

- Gosodwch dasg i drafod y sefyllfa'n lleol. Gallwch drafod:-
  - Sut mae sefyllfa'r Gymraeg yn eich ardal chi yn wahanol i ardaloedd eraill?

- Ydych chi'n meddwl fod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich ardal chi?
- Sut mae sefyllfa'r Gymraeg wedi newid dros amser yn eich ardal chi?
- Beth ydy'ch gobeithion chi ar gyfer y Gymraeg yn eich ardal?

Wrth lywio trafodaethau dosbarth, gallwch annog y disgyblion i ddechrau brawddegau fel hyn:-

"Dylai..."

"Gallwn..."

"Roeddwn..."

"Rydw i'n meddwl..."

"Byddwn i'n hoffi..."

"Yn fy marn i..."

"Yn bersonol..."

Mae'n bwysig fod y disgyblion yn gwrando ar weddill y grŵp ac yn ymateb yn briodol:-

"Rydw i'n cytuno..."

"Rydw i'n anghytuno..."

"Yn debyg i ti..."

"Yn wahanol i ti..."

Gellid cyfeirio at farn eraill hefyd:-

"Mae Mam yn meddwl..."

"Roedd John yn dweud..."

"Dydy Huw ddim yn meddwl..."

"Pan roedd Nain yr un oed â ni..."

Gellid cyfeirio at y gorffennol:-

"Roeddwn i'n arfer meddwl..."

"Yn yr hen ddyddiau, roedd..."

"Doeddwn i ddim yn..."